Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.




# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa: Siwtiau Gwrth-Niwed

Ebrill 29, 2024

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Ysgrifennwyd gan: Tom Walters

# Cynnwys

**Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg** ........ 2
**Crynodeb o Ganfyddiadau** ........ 5
**Arsylwadau’r Panel** ........ 6
**Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion Dalfeydd** ........ 9

# Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg

Yn 2022, nododd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mai prin oedd y craffu annibynnol ar anghymesuredd a dalfeydd mewn heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Yn dilyn nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad yn hyder y cyhoedd yn y modd y mae'r heddlu'n trin y cyhoedd.

Mae Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi awgrymu y byddai panel craffu annibynnol ar gadw yn y ddalfa yn gwella tryloywder, yn cynyddu hyder y cyhoedd ac yn nodi arferion da a gwael.

Diben cyffredinol y Panel Craffu Annibynnol ar Gadw yn y Ddalfa yw sicrhau bod gweithdrefnau dalfeydd a chadw yr heddlu yn Nyfed-Powys yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol.

Mae aelodaeth y panel craffu yn cynnwys gwirfoddolwyr presennol (ond nid yn gyfyngedig i) o blith:

1) Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa
2) Panel Sicrhau Ansawdd

Yn ogystal ag aelodau’r panel, roedd rhingyll dalfa, aelod o’r elusen Adferiad (sy’n cyflenwi oedolion priodol i ddalfeydd yn Nyfed-Powys ar gyfer unrhyw unigolyn a gedwir yn y ddalfa yr ystyrir ei fod yn fregus sy’n 18 oed neu’n hŷn) a chynrychiolaeth o Dîm Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn cynorthwyo’r broses graffu. Roedd hyn er mwyn cynorthwyo i roi cyngor proffesiynol i’r panel pe bai ganddynt unrhyw ymholiadau mewn perthynas â’r canlynol:

- Y prosesau a'r gweithdrefnau yn y ddalfa a/neu oedolion priodol;
- Unrhyw gwestiynau ar y ffurflenni electronig (e-ffurflenni) a ddefnyddiwyd i gofnodi a darparu adborth at ddibenion y craffu hwn.

Er mwyn helpu’r gwirfoddolwyr hefyd i ddeall, cyn y cyfarfod, cafodd y gwirfoddolwyr hyfforddiant gan Adferiad, a roddodd wybod am y broses pryd y dylid ystyried oedolyn priodol ar gyfer unigolyn bregus a gedwir yn y ddalfa. Yn unol ag adran C Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, dylid ystyried oedolyn priodol pan:

***<u>Cod C Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol</u> 1.13: (diweddarwyd 2018)***
***(d) mae 'bregus' yn berthnasol i unrhyw unigolyn sydd, oherwydd cyflwr iechyd meddwl neu anhwylder meddwl (gweler Nodiadau 1G ac 1GB):***

- ***yn cael anhawster deall neu gyfathrebu'n effeithiol am oblygiadau llawn unrhyw weithdrefnau a phrosesau iddo***
- ***(ii) nid yw'n ymddangos ei fod yn deall arwyddocâd yr hyn a ddywedir wrtho, y cwestiynau a ofynnir iddo neu ei atebion:***
- ***(iii) yn ymddangos yn arbennig o dueddol o:***
  - ***ddod yn ddryslyd ac yn aneglur ynghylch ei sefyllfa;***
  - ***darparu gwybodaeth annibynadwy, camarweiniol neu argyhuddol heb wybod neu heb ddymuno gwneud hynny;***
  - ***derbyn neu weithredu ar awgrymiadau gan eraill heb wybod yn ymwybodol na dymuno gwneud hynny; neu***
  - ***cytuno'n rhwydd i awgrymiadau neu gynigion heb unrhyw brotest neu gwestiwn.***

Dewiswyd yr achosion ar hap gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'u cyflenwi gan yr heddlu gan ganolbwyntio'n benodol ar ddillad gwrth-rwygo, a elwir hefyd yn siwtiau gwrth-niwed.

Dillad gwrth-rwygo yw'r defnydd o ddeunydd wedi'i atgyfnerthu sy'n lleihau'r risg y bydd unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn gallu rhwygo dillad i bwrpas hunan-niweidio trwy wneud rhwymynnau. Dim ond at ddiben lleihau'r risg y bydd unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn hunan-niweidio yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa y dylid defnyddio dillad gwrth-rwygo ac nid at unrhyw ddiben arall. Mae Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi adrodd am bryderon cyson ynghylch y defnydd o ddillad gwrth-rwygo gan nodi:

- ***Mae'r siwtiau/dillad yn cael eu cofnodi fel rhai sy'n cael eu defnyddio yn absenoldeb gwybodaeth risg, yn aml gydag unigolion anodd yn y ddalfa, trwy orfodi, ac maent wedi'u nodi fel rhai a allai fod yn gosbol.***
- ***Cofnodi gwael ac arferion gwael o ran cymesuredd a chyfiawnhad dros ddefnyddio'r siwtiau.***

Ers mis Mawrth 2022, mae Heddlu Dyfed-Powys, Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a SCHTh wedi dechrau cynllun peilot dillad gwrth-rwygo, sy’n caniatáu i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd weld cofnodion dalfeydd unigolion o fewn dalfeydd Dyfed-Powys sydd wedi cael siwt gwrth-niwed, gan edrych yn arbennig ar:

- ***A yw'r siwtiau'n cael eu dosbarthu’n briodol,***
- ***A ydynt yn cael eu dad-wisgo cyn gynted â phosibl,***
- ***A oes digon o resymeg dros eu defnyddio wedi'i chofnodi yng nghofnodion y ddalfa.***

Ers mis Mai 2023, gydag integreiddio cronfa ddata cofnodi heddlu newydd o'r enw Niche, bu'n rhaid gosod y peilot hwn i’r neilltu. Gyda phrif gwnstabliaid yn cael eu hannog i sicrhau bod yr holl heddluoedd yn gweithredu swyddogaeth adroddadwy ar gyfer defnyddio dillad gwrth-rwygo ar systemau dalfeydd i ganiatáu mwy o graffu, cydnabyddir y gall Panel Craffu'r Ddalfa barhau i fonitro cynnydd yn y maes hwn.

# Crynodeb o Ganfyddiadau

I grynhoi'r canfyddiadau, roedd yr adborth cyffredinol gan y panel yn gadarnhaol ac roedd aelodau'r panel yn awyddus i amlygu'r heriau sydd gan staff y ddalfa wrth wneud eu hasesiadau risg mewn amgylcheddau heriol. Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon gan y panel ac roedd y pryderon hyn yn ymwneud ag ansawdd ac amlder yr asesiadau risg/cynlluniau gofal a oedd yn cael eu cwblhau.
Asesodd y panel mai sgôr gyfartalog gyffredinol yr 15 cofnod dalfa a adolygwyd oedd 3.13 allan o bump.

Mewn perthynas â'r pethau cadarnhaol, nododd y panel y canlynol:

- Ym mhob achos a graffwyd gan y panel, gosodwyd lefel arsylwi, (gan ystyried yr holl risgiau a chofnodi'r rhesymeg) a chadwyd at yr holl lefelau arsylwi (tudalen 14).
- Cynigiwyd cynhyrchion mislif i bob unigolyn ifanc benywaidd a gedwir yn y ddalfa fel rhan o'u hawliau (tudalen 14).
- Yr amser cyfartalog a aeth heibio rhwng cyrraedd a chadw awdurdodedig oedd 15 munud, gyda'r cyfnod hiraf yn un awr ac wyth munud a'r byrraf yn un funud (tudalen 10).
- Roedd gan 67% o unigolion a yn y ddalfa fynediad at wasanaethau cymorth fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gwasanaethau cymdeithasol a/neu oedolion priodol (tudalen 18) ac fe'u cyfeiriwyd atynt.
- O'r 13 achos a oedd yn gwisgo dillad gwrth-rwygo, dim ond mewn un achos y tynnwyd dillad trwy rym, aseswyd 80% fel risg o hunan-niwed a darparodd 11 achos sail resymegol ar gyfer rhoi'r dillad gwrth-rwygo (tudalen 19).

Lle nododd y panel feysydd o bryder neu lle y gellid gwella, rhannwyd eu harsylwadau â Phrif Arolygydd y Ddalfa ac mae eu hymateb wedi'i gynnwys yn adran 3 *Arsylwadau'r Panel*.

# Arsylwadau’r Panel

Cynhyrchwyd sylwadau'r heddlu gan Brif Arolygydd y Ddalfa, Heddlu Dyfed-Powys, Jenna Jones.

| Thema | Arsylwadau | Ymateb yr Heddlu |
|---|---|---|
| Siwtiau gwrth-niwed | • Lle darparwyd siwt, ni ddefnyddiodd 47% gwymplen system y ddalfa.<br>• Darparodd 73% resymeg.<br>• O'r 67% o unigolion yn y ddalfa y tynnwyd eu dillad yn orfodol, roedd gan 67% asesiadau risg parhaus.<br>• Yn 60% o achosion ni ddefnyddiwyd gweithdrefnau dad-ddwysáu, eitemau tynnu sylw neu ddulliau eraill o leihau lefel y risg.<br>• Nid oedd 60% o gofnodion dalfeydd yn cynnwys y dillad gwrth-rwygo a drafodwyd wrth drosglwyddo staff.<br><br>*Tudalen 14* | Byddaf yn rhoi adborth i aelodau perthnasol o staff y ddalfa mewn perthynas â:<br><br>• Defnyddio cwymplen system y ddalfa.<br>• Deunyddiau tynnu sylw<br>• Trosglwyddiadau i gynnwys gwybodaeth am lefel y risg a'r defnydd o ddillad gwrth-rwygo. |
| Noeth-chwiliadau | O'r wyth cofnod dalfa a gofnododd noeth-chwiliad, rhoddodd bump ohonynt resymeg dda o gymharu â thri lle na ellid dod o hyd i'r rhesymeg.<br><br>*Tudalen 17* | Rwyf wedi adolygu pob un o’r tri achos a nodwyd gan y panel. Rwyf wedi llwyddo i ddod o hyd i resymeg ar gyfer un o’r tri achos, a oedd yn cyfiawnhau’r chwiliad a oedd yn nodi bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi’i gyhuddo yn flaenorol o guddio a chamddefnyddio cyffuriau, yn dangos arwyddion o ewyn yn y geg, yn ymddangos o dan ddylanwad mwy |


| | | |
|---|---|---|
| | | nag alcohol, yn feddw iawn ac yn emosiynol iawn.<br><br>Ar gyfer y ddau achos arall, nid oedd unrhyw sail resymegol gan na chynhaliwyd noeth-chwiliad. Fodd bynnag, ar gyfer y ddau achos, dylai cofnod noeth-chwiliad yn unol â Davies yn erbyn Glannau Merswy fod wedi'i gofnodi ar gyfer y ddau. Fel y cyfryw, bydd adborth yn cael ei roi i swyddogion y ddalfa. |
| Graddau coch melyn gwyrdd. | Roedd 60% o gofnodion y ddalfa a adolygwyd yn nodi gradd felen ar gyfer defnyddio siwtiau gwrth-niwed, gan awgrymu mai ychydig iawn o gyfiawnhad neu gyfiawnhad aneglur a ddarparwyd yn y cofnod cadw neu fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael ei adael yn y siwt am gyfnod hir o amser. Tudalen 16 | Nodaf fod angen craffu ymhellach ar y defnydd o siwtiau gwrth-niwed i ddeall y problemau ac a yw gwaith monitro perfformiad diweddar yn gwella'r broses o gofnodi'r rhesymeg ynghylch defnyddio siwtiau gwrth-niwed.<br><br>Byddaf yn parhau i adolygu hyn fel rhan o'r adroddiadau misol. |
| Unigolion benywaidd sy'n cael eu cadw yn y ddalfa | • O'r pedwar achos o unigolion benywaidd a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa a archwiliwyd, neilltuwyd swyddog o'r un rhyw i ddau o'r achosion a chynigiwyd siarad â rhywun o'r un rhyw.<br>• Yn un o'r achosion a archwiliwyd, nid oedd yr un swyddog benywaidd ar gael adeg yr arestio ac ni ddaethpwyd o hyd i gofnod pellach ynghylch a oedd | Mae merched na neilltuwyd swyddog benywaidd iddynt yn rhan o'r broses graffu. Mae'r broses braidd ar hap ond rydym yn dechrau gweld rhai gwelliannau yn y maes hwn.<br><br>Mae adolygiad Heddlu Manceinion Fwyaf o driniaeth unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, merched yn bennaf, o ddiddordeb a bydd yn tynnu sylw at rai o'r union faterion hyn y bydd angen craffu arnynt ymhellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | swyddog benywaidd wedi'i neilltuo i'r unigolyn a oedd yn cael ei chadw yn y ddalfa.<br>• Cynigiwyd cynhyrchion mislif i bob unigolyn benywaidd a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa fel rhan o'u hawliau. | Mae cael cynnig cynnyrch mislif yn bwysig ac mae'n addawol gweld bod hyn yn digwydd ac yn cael ei gofnodi. |
| Lefel arsylwi | Ym mhob achos a graffwyd gan y panel, gosodwyd lefel arsylwi, (gan ystyried yr holl risgiau a chofnodi'r rhesymeg) a chadw at yr holl lefelau arsylwi. *Tudalen 14* | Mae hwn yn adborth da, a fydd yn cael ei roi i staff y ddalfa. |
| Bylchau mewn gwybodaeth am hawliau unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa | Crefydd - Ni allai unrhyw aelod o'r panel ganfod a gafodd eitemau crefyddol eu cynnig neu y gofynnwyd amdanynt yn unrhyw un o gofnodion y ddalfa a adolygwyd. *Tudalen 7*<br><br>Cloch alw'r gell - ni allai 80% o'r panel benderfynu a oedd unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn cael eu cyfarwyddo ynglŷn â'r gloch alw yn eu cell yn y ddalfa. *Tudalen 8*<br><br>Picseleiddio toiledau - ni allai 73% o'r panel benderfynu a oedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael gwybod bod ardal y toiledau wedi'i phicseleiddio yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa. *Tudalen 8* | Mae hwn yn faes parhaus sydd wedi'i amlygu. Bydd angen imi wirio ble y dylid cofnodi hyn a pham nad yw'n digwydd. Rwy'n credu ei fod yn gwestiwn y dylid ei ofyn i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa ac sy'n cael ei fewnbynnu o fewn y system. Byddaf yn gwirio gyda'r rhingyll hyfforddi i weld a yw hyn yn cael ei addysgu mewn hyfforddiant gloywi ac i staff dalfa newydd. |


# Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion Dalfeydd

Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau'r panel ac a ddadansoddwyd i nodi'r pethau cadarnhaol a'r meysydd sydd angen eu gwella ym mhob maes penodol o gofnodion dalfeydd.

## Rhywedd




## Oedran





- Mae'r siart gylch yn dangos dadansoddiad o ystod yr oedran a adolygwyd o gyfanswm o 15 o achosion o unigolion yn cael eu cadw yn y ddalfa.


## Ethnigrwydd

- Cofnodwyd bod pob unigolyn a gafodd eu cadw yn y ddalfa yn Wyn Prydeinig neu’n Wyn o Ogledd Ewrop.
- Ni chofnodwyd unrhyw bobl Ddu neu leiafrifoedd ethnig eraill o'r hapsampl hwn.

## Amser Cyrraedd yn y Ddalfa




## Amser Cadw Awdurdodedig





- Yr amser cyfartalog a aeth heibio rhwng cyrraedd y ddalfa a chadw awdurdodedig oedd 15 munud, gyda'r cyfnod hiraf yn un awr ac wyth munud a'r byrraf yn un funud.
- Cyfanswm yr amser y cafodd unigolyn ei gadw yn y ddalfa ar gyfartaledd oedd 20 awr a phedair munud. Y cyfnod hiraf oedd un diwrnod, wyth awr a 39 munud a'r byrraf oedd saith awr a 15 munud.


## Gofynion crefyddol

- Ni allai unrhyw aelod o'r panel ganfod a oedd eitemau crefyddol yn cael eu cynnig neu y gofynnwyd amdanynt yn unrhyw un o'r cofnodion cadw a adolygwyd.


## Gofynion Deiet Arbennig





## Cloch alw'r gell





## Picesliad Toiled




## Bwyd a lluniaeth




## Hylendid a gynigir (cawodydd a chyfleusterau ymolchi dwylo)





- O'r pedwar achos o unigolion benywaidd a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa a archwiliwyd, neilltuwyd swyddog o'r un rhyw i ddau o'r achosion a chynigiwyd siarad â rhywun o'r un rhyw.
- Yn un o'r achosion a archwiliwyd, nid oedd yr un swyddog benywaidd ar gael adeg yr arestio ac ni ddaethpwyd o hyd i gofnod pellach ynghylch a oedd swyddog benywaidd wedi'i neilltuo i'r unigolyn a oedd yn cael ei chadw yn y ddalfa.
- Cynigiwyd cynhyrchion mislif i bob unigolyn benywaidd a gedwir yn y ddalfa fel rhan o'u hawliau.


## Sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa





- Mae system sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa wedi'i hychwanegu at broses asesu risg safonol arferol yr heddlu i nodi morbidrwydd a risg marwolaethau yn y ddalfa.


## Hawliau








- Yr amser cyfartalog a gymerodd i unigolyn a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr ar ôl ei awdurdodiad yn y ddalfa oedd 6 awr
- Yr amser cyfartalog a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ôl cyfnod cadw awdurdodedig oedd 4 awr a 42 munud.




## Lefel arsylwi





- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
- Lefel 1 Cyffredinol (o leiaf unwaith yr awr)
- Lefel 2 Ysbeidiol (bob 30 munud)
- Lefel 3 Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
- Lefel 4 Yn Gorfforol Agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos).

- Ym mhob achos a graffwyd gan y panel, gosodwyd lefel arsylwi, (gan ystyried yr ho chadw at yr holl lefelau arsylwi.

## Gwasanaethau cynorthwyol








## Siwtiau gwrth-niwed



























LLE DARPARWYD SIWT, A DDEFNYDDIWYD CWYMPLEN SYSTEM DILLAD GWRTH-RWYGO Y DDALFA?
Ydy
Nac ydy
Amh
20%
33%
47%



OS OEDD DILLAD YN CAEL EU TYNNU, A OEDD ASESIADAU RISG PARHAUS?
Oedd
Nac oedd
Amh
6%
27%
67%


A YW'R COFNOD YN CYNNWYS TYSTIOLAETH BOD DILLAD GWRTH-RWYGO'N CAEL EU TRAFOD PAN MAE STAFF YN...
Ydy
Nac ydy
Amh
13%
27%
60%


A DYNNWYD DILLAD TRWY RYM?
Oedd
Nac oedd
Amh
6%
27%
67%



LLE DARPARWYD SIWT, A DDARPARWYD SAIL RESYMEGOL?
Do
Naddo
Amh
20%
7%
73%



A YW'R COFNOD YN CYNNWYS TYSTIOLAETH O DDEFNYDDIO GWEITHDREFNAU DDAD-DDWYSÁU, EITEMAU SY'N…
Ydy
Nac ydy
Amh
13%
27%
60%


A YW'R COFNOD YN CYNNWYS TYSTIOLAETH BOD Y DILLAD GWRTH-RWYGO'N CAEL EU TYNNU CYN CYFWELIAD?
Do
Naddo
Amh-dim yn gwisgo dillad di-rhwygo
Amh-dim wedi cael cyfweliad
13%
20%
40%
27%

# Coch Melyn Gwyrdd

| Rheswm dros y Dyfarniad | Camau Dilynol |
|---|---|
| Cwymplen mewn defnydd a rhesymeg lawn dros ddefnyddio'r dillad, sy'n gyfiawnadwy ac yn gymesur i'r perygl a gyflwynir. | |
| Tynnwyd y dillad i ffwrdd cyn gynted ag y bo'n ymarferol. | |
| Dad-ddwysáu clir, a defnyddiwyd eitemau tynnu sylw ac ati er mwyn lleihau'r perygl y byddai'r carcharor yn niweidio ei hun yn fwriadol. | Does dim angen camau gweithredu pellach ar hyn o bryd. |
| Ychydig iawn o gyfiawnhad, neu gyfiawnhad aneglur, dros ddefnyddio'r dillad. | |
| Gwybodaeth annigonol ar gyfer pennu cymesuredd defnyddio'r dillad. | |
| Gadawyd y carcharor yn y dillad am gyfnod hir. | Rhoddwyd hyfforddiant/cyngor pellach i staff y ddalfa. |
| Nodwyd drwy'r gwymplen fod y dillad wedi'u defnyddio, ond ni roddwyd gwybodaeth bellach. | |
| Defnyddiwyd y dillad yn absenoldeb gwybodaeth risg ond ni nodwyd rhesymau eraill. | |
| Defnyddiwyd y dillad gan yr heddlu ond ni roddwyd gwybodaeth bellach. | |
| Ni ddefnyddiwyd y gwymplen. Darganfu gwybodaeth am y dillad fel rhan o adolygiadau rheolaidd o gofnodion dalfa gan Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. | Mae angen archwilio ymhellach i'r defnydd/rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa. |








- Dywedodd y panel ar un achlysur na allent weld tystiolaeth o'r swyddogaeth cwymplen yn cael ei defnyddio; fodd bynnag, y rhesymeg a ddarparwyd oedd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn feddw ar ôl cyrraedd ac yn bygwth lladd ei hun.
- Darparwyd dillad gwrth-rwygo gan fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn bygwth hunan-niweidio. Cafodd eu tynnu ar gais yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ond nid cyn cyfweliad.
- Mewn digwyddiad ar wahân, y rheswm a roddwyd dros osod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa mewn siwt gwrth-niwed oedd na fyddai'r unigolyn yn y ddalfa yn ymgysylltu a'i fod yn emosiynol oherwydd pen-blwydd marwolaeth ffrind.

## Oedolyn Priodol


### A WNAETH YR HEDDLU GANFOD BOD ANGEN OEDOLYN PRIODOL?





### A GYSYLLTWYD Â'R UNIGOLYN ENWEBEDIG/OEDOLYN PRIODOL?




### (OS DO AC NI DDARPARWYD UN) A OEDD UNRHYW SAIL RESYMEGOL PAM NA DDARPARWYD OEDOLYN PRIODOL?



## Sgôr cyffredinol




- Y sgôr gyffredinol a roddodd y panel ar gyfer y 15 o gofnodion y ddalfa a adolygwyd oedd tri allan o bump.
- Sgoriwyd y radd gyda phump yn rhagorol ac un angen gwelliant.